

Cynllun aelodau Ieuenctid Llanrug

Mae Cyngor Cymuned Llanrug a Chwm y Glo, wedi mabwysiadu cynllun i apwyntio dau aelod Ieuenctid i eistedd ar y Cyngor Cymuned. Mae'r ddwy a apwyntiwyd yn fyfyrwyr yn Ysgol Uwchradd Brynrefail, Llanrug.

Dros nifer o flynyddoedd mae'r Cyngor wedi mwynhau partneriaeth agos iawn gyda'r ysgol uwchradd drwy gyd weithio ar gyfer eu Bagloriaeth Cymraeg. Roedd y Cyngor, yn awyddus i adeiladu ar y berthynas yma gan roi cyfle i'r aelodau Ieuenctid roi eu barn ar benderfyniadau sydd yn effeithio arnynt, a chyfle iddynt gymryd rhan yn y broses o ddemocratiaeth leol.

Rhoddodd mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 y cyfle a'r pŵer i gynghorau Cymuned apwyntio hyd at ddau gynrychiolydd Ieuenctid, rhwng 16 a 25 oed, sydd yn byw, neu dderbyn eu haddysg yn yr ardal.

Mae'r Cyngor, sydd gyda 14 o aelodau, yn ffodus iawn o gael aelodau sydd a'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol, ac mae gwneuthuriad y Cyngor gyda 5 aelod sydd wedi ymddeol a 9 sydd mewn gwaith yn rhoi profiad eang iddo. Mae'r Cyngor yn derbyn ei gyfrifoldeb i gynrychioli pawb sydd yn y gymuned ac yn teimlo ei bod hi'n bwysig i aelodau gael barn a dyheadau'r bobl ifanc cyn dod i benderfyniad. Oherwydd bod y cyfle yma drwy'r ddeddfwriaeth uchod, penderfynwyd fod yr ifanc yn cael eu hystyried mewn unrhyw benderfyniad a all effeithio arnynt. Mae'r Cyngor hefyd yn gobeithio y bydd denu aelodau Ieuenctid yn magu diddordeb ar y bobl ifanc i eistedd fel Cynghorwyr yn y dyfodol ac i fagu diddordeb mewn gwleidyddiaeth.

Oherwydd bod yr ysgol uwchradd wedi ei lleoli oddi fewn i ddalgylch y Cyngor Cymuned, ysgrifennwyd at yr ysgol i'w hysbysu o'r cynllun a chafwyd eu cefnogaeth. Fe dderbyniwyd nifer o ymholiadau ond cytunodd y Cyngor i benodi dwy aelod Ieuenctid, un ym mlwyddyn 11 yr ysgol a'r llall yn y 6ed dosbarth.

Y gobaith yw bydd yr aelodau Ieuenctid yn cyfleu penderfyniadau'r Cyngor ac unrhyw faterion i'w trafod gyda'u ffrindiau drwy wefannau cymdeithasol neu ar system gyfathrebu'r ysgol. Fe ragdybir bydd bod yn aelod Ieuenctid ar y cyngor o help mawr i ddisgyblion yn y dyfodol gyda'u rhagolygon gwaith ac y byddai'n beth da iddynt gynnwys yn eu CV. Hefyd, mawr o beithir y gellir adeiladu ar y berthynas rhwng y Cyngor Cymuned, yr ysgol a'r myfyrwyr yn gyffredinol.

Mewn datganiad, dywedodd Miriam a Beca, yr aelodau Ieuenctid, "Rydym wedi cymryd y cyfle i fod ar y Cyngor Cymuned er mwyn ehangu ein sgiliau cymdeithasol, er mwyn sicrhau llais i Ieuenctid y gymuned ac i gyfrannu tuag at benderfyniadau er lles y trigolion. Rydym yn mwynhau yn arw cael ein llais ar y cyngor, a gobeithio y bydd y cyfle yn cael ei drosglwyddo i lawer o bobl ifanc yn y dyfodol."

Gweler isod Cadeirydd y Cyngor Cymuned, Y Cynghorydd Goronwy Hughes gyda Miriam a Beca yn dilyn i'r Cyngor fabwysiadu eu penodiad yn ffurfiol.

